# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 2 GORFFENNAF 2013 am 2.00 o'r gloch | | TUESDAY at 2 JULY, 2013 at 2.00pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes (01407) 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Richard Owain Jones, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones

# R H A G L E N

**1** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i’w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Ebrill, 2013.

**4** **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2013/14** (Tudalennau 3 - 12)

Cyflwyno adroddiag gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

**5** **SIARTER CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

**6** **DARLLEDU CYFARFODYDD A MYNEDIAD O BELL** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU** (Tudalennau 21 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

**8** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2013/14** (Tudalennau 31 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H E Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Eric Roberts a S Williams |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Fflur Mai Hughes, Aled Morris Jones |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd G.O. Parry MBE – Arweinydd y Grwp Annibynnol Gwreiddiol |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2013.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cyfarfod dair gwaith a rhoes amlinelliad o'r argymhellion a'r statws cyfredol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd hyn..

Cytunwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 23 Mai, 2013.

Roedd yr Aelodau o'r farn fod y Pwyllgor wedi gwneud cryn dipyn o waith ers y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ym mis Hydref y llynedd a llongyfarchwyd y Swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13 i'r Cyngor llawn ar 23 Mai, 2013.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD H. EIFION JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y CYFARFOD: | 2 GORFFENNAF 2013 |
| TEITL: | CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2013/14 |
| AWDUR: | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO |
| DEILYDD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES |

1.0 **Cefndir**

1.1 Mae maes gwaith y Pwyllgor yn cynnwys cyfrifoldeb am y rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau ac adroddwyd ar gyd-destun a manylion y cynllun datblygu aelodau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol i'r Cyngor ar 23 Mai 2013. Cymeradwywyd yr adroddiad gan yr aelodau a mabwysiadwyd y cynllun hyfforddi [copi ynghlwm].

1.2 Mae'r Cynllun wedi ei strwythuro i'w gyflawni fesul cam ac rydym bellach wedi cyrraedd ail gam y rhaglen. Roedd cam 1 y cynllun yn canolbwyntio ar elfennau cydymffurfiaeth yn bennaf ac mae'r atborth a gafwyd o'r sesiynau hyfforddi a chynefino hyd yma wedi bod yn gadarnhaol.

2.0 Byddai o fudd cael atborth gan y Pwyllgor am y rhaglen hyfforddi hyd yma.

3.0 **Eiriolydd ar gyfer yr Aelodau**

3.1 Yn unol â'r arfer, mae'n briodol i'r Pwyllgor enwebu un o'i Aelodau i weithredu fel yr Eiriolydd Datblygu Aelodau ac i gynrychioli anghenion hyfforddi'r holl Aelodau. Argymhellir bod Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon ac yn dilyn arferion y gorffennol.

4.0 **Adolygiadau Datblygu Personol**

4.1 I ddangos bod yr Awdurdod yn ymrwymedig i ddatblygu Aelodau, cyflwynwyd adolygiadau datblygu personol ledled y sefydliad yn ystod 2012 ar gyfer pob Aelod Etholedig. Roedd hyn yn fodd i Aelodau roi atborth am eu profiadau/datblygiad mewn swyddogaethau penodol a bu'n ddefnyddiol hefyd ar gyfer llywio'r gwaith o ddiweddaru'r cynlluniau datblygu hyfforddiant.

4.2 Yn yr hydref, bwriedir canolbwyntio ar yr agwedd hon gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o raglen hyfforddi a datblygu.

5.0 **Argymhellion**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

a) Cadarnhau Cadeirydd y Pwyllgor hwn fel yr Aelod a enwebir i fod yn Eiriolydd Datblygu Aelodau;

b) Cyflwyno sylwadau ar raglen hyfforddi 2013/14 a nodi y bydd hon yn eitem safonol ar raglen y Pwyllgor;

c) Nodi'r bwriad i ganolbwyntio ar adolygiadau datblygiad personol ar gyfer Aelodau fel rhan o'r rhaglen.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**07/06/13**

# Rhaglen Datblygu a Chynefino ar gyfer Aelodau ar ôl Mai 2013

**CAM 1**

| Amserlen | **Cyswllt gyda Siarter Aelodau CLILC** | **Pwnc** | **I bwy?** |
|---|---|---|---|
| **MAI 2013** | **09.05.2013**<br><br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | • Croeso i'r Cyngor a throsolwg cychwynnol o'r rhaglen waith allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Uwch Reolwyr<br><br>• Cyfarfod â Chyfarch Penaethiaid Gwasanaeth/cynrychiolwyr Adrannol | Pob Aelod Etholedig |
| | **8-10/5/2013** Moderneiddio Arferion Gweithio | • Hyfforddiant Ipad cyffredinol<br>• Hyfforddiant Modern Gov.<br>• Taith o amgylch yr adeilad | Pob Aelod Etholedig |
| | **15.05.2013** Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Y Fframwaith Moesegol – Cyflwyniad i Reolau a Safonau Ymddygiad | Pob Aelod Etholedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **20.05.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | • Diogelu Data<br>• Y Cynllun Iaith Gymraeg<br>• Protocolau delio gyda'r Wasg/Cyfryngau | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **29.05.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Modern Gov. – Datganiad Diddordeb ar lein | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |

**CAM 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **MEHEFIN 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Panel Penodi | Aelodau Etholedig ar y Panel Penodi<br><br>Mewnol |
| | **03.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Cynllunio | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio<br><br>Mewnol |
| | **04.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Asesu Anghenion Datblygu | Pwyllgor Gwaith<br><br>CLlLC |
| | **06.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Trosolwg o'r Swyddogaeth Sgriwtini | Pob Aelod Etholedig<br>Mewnol |
| | **07.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Sesiwn Ddatblygu ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Pwyllgor Gwaith<br>CLlLC |
| | **11.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - Yr holl Gadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgor | Sesiwn/Sesiynau Sgiliau Cadeirio | Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini<br>Mewnol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **13.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth – Yr holl Gadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgor | Sgiliau Holi mewn cyfarfodydd Sgriwtini | Pob Aelod o Bwyllgorau Sgriwtini<br><br>Mewnol |
| | **24.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cynllun Corfforaethol/Rhaglen Trawsnewid a Chynllunio Ariannol | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **26.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Gweithdy Sgiliau Cadeirio cyffredinol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC /Mewnol |
| | **27.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Derbyn yr her Sgriwtini | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC |
| **GORFFENNAF 2013** | **02.07.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sgriwtineiddio Data Perfformiad | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **03.07.2013/05.07.2013/16.07.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cyfrifoldebau Corfforaethol e.e. Rhiantu Corfforaethol/Diogelu Oedolion Bregus a Phlant | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **08.07.2013**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Swyddogaethau Archwilio<br><br>Adroddiad Cyfrifon/Rheolaeth Trysorlys | Pob Aelod Etholedig<br><br>Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol/SAC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **12.07.2013**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Cynnal adolygiad manwl (Panel Canlyniad Sgriwtini) | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| **AWST 2013** | **TORIAD DROS YR HAF** | **DIM HYFFORDDIANT WEDI EI GYNLLUNIO** | |
| **MEDI 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Iechyd a Diogelwch | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **05.09.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cyfryngau Cymdeithasol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLlLC |
| | **11.09.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cydraddoldebau | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLlLC |
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Y Datganiad Cyfrifon | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Rheoli'r Trysorlys | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |
| **HYDREF 2013** | **09.10.2013**<br>Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Hyfforddiant Adolygiad Datblygiad Personol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLlLC |
| | **14.10.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sgriwtineiddio'r Gyllideb | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Rheoli Risg | Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini<br><br>Mewnol |
| **TACHWEDD 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Gosod y Gyllideb | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| **RHAGFYR 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a'r Trefniadau Atal Twyll | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |

**Sesiynau Datblygu ychwanegol a pharhaus i'w trefnu:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyn y Pwyllgorau Trwyddedu cyntaf | Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - Trwyddedu (cyn y cyfarfodydd cyntaf) | Hyfforddiant i'r Pwyllgor Trwyddedu | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu |
| Cyn y Toriad dros yr Haf | Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sesiynau Briffio cyffredinol ar faterion allweddol yn y gwasanaethau megis sesiynau trosolwg DVD/dosbarth | Pob Aelod Etholedig |
| Cyfredol fel bo'r angen | Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Sgiliau Cadeirio | Pob Aelod Etholedig |
| Anghenion Hyfforddi a godwyd yn sgil yr Adolygiadau Datblygiad | Sgiliau Personol Cyffredinol | Sgiliau TGCh e.e. Ipad/Outlook Explorer ac ati<br>Sgiliau Iaith Gymraeg (Llafar/Ysgrifenedig) | Fel y byddant yn codi/ar gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Personol/ceisiadau unigol ar sail ad-hoc | | Pecynnau E-Ddysgu | |
| Parhaus | Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - | Diweddariadau Cynllunio | Pob Aelod Etholedig ar y Pwyllgor Cynllunio |
| Fel y byddant yn codi | Digwyddiadau Cydweithredol/rhanbarthol | Fel y ceir gwybod | Pob Aelod Etholedig |
| Dyddiad i'w gadarnhau | Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Cyfrifon terfynol | Pob Aelod Etholedig |

**O.N. Bwriedir diwygio'r cynllun fel sy'n briodol wrth i flaenoriaethau newid ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y sefydliad.**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **2 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD GWAITH – SIARTER DATBLYGU AELODAU 2013/14** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DROS DRO** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Er mwyn cefnogi anghenion, swyddogaethau a chyfrifoldebau Aelodau, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Nod y Siarter yw darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio lleol, hunanasesu, gweithredu ac adolygu – ynghyd â cymharu'r sefyllfa rhwng awdurdodau a rhannu arferion da ac arloesol. Adroddwyd ar feini prawf y siarter i'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagyfr 2012.

Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad i ennill statws Siarter i adlewyrchu ei ymrwymiad i hyfforddi a datblygu Aelodau a chanolbwyntio ar Adolygiadau Datblygiad Personol yn unol â'r gofyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae hynny yn golygu bod angen paratoi hunanasesiad o sawl agwedd.

Wrth baratoi ar gyfer y Marc Siarter, mae'r Cyngor wedi llunio hunanasesiad yn gynharach eleni a denyddiwyd CLlLC i gynnal adolygiad cymheiriad anffurfiol o'r gefnogaeth a'r datblygiad a gynigir i Gynghorwyr yn ei baratoadau ar gyfer y Cyngor newydd. Cafwyd atborth gan CLlLC hefyd ar sefyllfa'r Awdurdod o ran bodloni'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw i ennill lefel gyntaf y Siarter.

Mae'r atborth a gafwyd wedi cadarnhau bod yr Awdudod yn gwneud cynnydd da o ran ei baratoadau i ennill Statws Siarter.

Fodd bynnag, gofynnwyd am rywfaint o dystiolaeth ychwanegol ac mae'r manylion i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Yn amodol ar unrhyw sylwadau y bydd gan y Pwyllgor i'w gwneud, bwriedir diweddaru CLlLC yn seiliedig ar y sylwadau yn yr atodiad, a hynny er mwyn

gwneud cynnydd gyda'r cais i ennill Marc Siarter. Y gobaith yw sicrhau statws Siarter yn ystod 2013/14.

## 2.0 Argymhellion

a) Nodi'r cynnydd fel y manylir arno yn yr adroddiad;

b) Rhoi awdurod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - Dros Dro ddiweddaru CLILC mewn perthynas â'r cais i ennill Marc Siarter.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**07/06/13**

| MEINI PRAWF | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **A1. Bod Aelodau yn cael cefnogaeth gyda disgrifiadau rôl** | Mewn perthynas â chyrff allanol, mae CLILC wedi paratoi pecyn cymorth ar gyfer Aelodau. Bwriedir cylchredeg y pecyn cymorth i Aelodau. Nid yw disgrifiadau rôl ar gyfer cyrff allanol ar gael bob amser a rhydd y pecyn cymorth ganllawiau cyffredinol ynghylch maglau a gwrthdrawiadau gwleidyddol. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgynghori gyda chyrff allanol ar ddisgrifiadau rôl ac yn rhoddi i Aelodau ddisgrifiad rôl berthnasol. Y dasg hon i'w chwblhau yn ystod Ch2. |
| **B2. Mae trefniadau mewn llaw i'r holl Aelodau gael EDP** | Rhoddir sylw i hyn yn y cynllun hyfforddiant a datblygu a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod ar 23 Mai 2013. Bwriedir cynnal adolygiadau datblygiad personol yn Ch3. |
| **B3. Bod rhaglen glir ar gyfer Cynghorwyr yn ei lle gyda threfniadau ar gyfer ei hadolygu bob blwyddyn** | Ar 23/05/13, mabwysiadodd y Cyngor gynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer 2013/14. Eitem safonol ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i fonitro cynnydd. |
| **B6. Mae cyfrifoldeb clir mewn perthynas ag arwain y rhaglen, gyrru'r strategaeth a monitro'r canlyniadau** | Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 19/06/13 yn enwebu un o'i Aelodau i weithredu fel Eiriolwr Datblygu Aelodau. Cefnogir y rôl hon gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro. |
| **B8. Cynigir i Aelodau'r cyfle i gael eu monitro gan gymheiriaid o blith Aelodau** | Fel rhan o ymestyn y rhaglen datblygu a hyfforddi aelodau i gynnwys atborth gan aelodau, mae sgôp i ystyried anghenion penodol i gefnogi swyddogaethau'r Aelodau a chyfleon mentora. Mae CLILC yn cefnogi'r dasg hon ac yn gweithio yn y lle cyntaf gyda'r Pwyllgor Gwaith i nodi anghenion. |
| **C2. Gwneud trefniadau i fusnes y Cyngor fod yn hyblyg a galluogi Aelodau i gymryd rhan lawn waeth beth fo eu hamgylchiadau personol** | Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Awdurdodau gynnal adolygiad (o leiaf bob tymor) ynghylch a yw'n well gan yr Aelodau gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag Arweinyddion y Grwpiau. |
| **C3. Rheoli cysylltiadau a chyfathrebu (systemau i gefnogi baich gwaith yr Aelodau ac ati)** | Fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid, mae rhaglen Rhagoriaeth Cwsmer wedi cael ei nodi. Mae Bwrdd Rhaglen wrthi'n cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar ddarparu prosiectau penodol.<br><br>Mae Aelodau newydd wedi cael pwynt cyswllt penodol er mwyn eu cyfeirio at swyddogion perthnasol ar gyfer arweiniad ynghylch baich gwaith. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad** | 2 Gorffennaf 2013 |
| **Pwnc** | Darlledu Cyfarfodydd a Mynychu o bell |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Dros Dro |

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

**Cefndir**

Bu llawer o drafod yn ddiweddar ymysg Awdurdodau Lleol Cymru ynglŷn â'r cyfleon ar gyfer gweddarlledu a chaniatáu presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Cyngor. Mae Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn deddfu ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd ac er nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar gyfer gweddarlledu mae'n gysylltiedig â'r darpariaethau i gryfhau democratiaeth leol.

Sbardunwyd y drafodaeth ymhellach gan gynnig o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â 'Darlledu Cyfarfodydd y Cyngor a Sefydlu Gwefannau i Gynghorau Cymuned'.

Nid yw'r Gweinidog wedi deddfu yn y maes gweddarlledu ond mae ganddo bwerau i wneud hynny. Mae darlledu cyfarfodydd wedi'i gysylltu i ddarpariaethau o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gryfhau democratiaeth leol; y bwriad yw cryfhau'r strwythurau a'r ffyrdd y mae Llywodraeth Leol yn gweithio yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod Cynghorau lleol yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu gyda phob sector o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

Yn unol ag Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rhaid i brif brif gynghorau ganiatau mynychu cyfarfodydd y Cyngor o bell. Mewn geiriau eraill, nid oes yn rhaid i bob Aelod fod yn bresennol yn y prif gyfarfod er mwyn cymryd rhan ynddo. Derbyniwyd canllawiau drafft ac ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd.

**Grant**

Yn Ionawr 2013, ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau at bob Awdurdod Lleol ynghylch hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad cyhoeddus. Dyrannwyd £40,000 i bob prif Gyngor i helpu gyda darlledu a phresenoldeb o bell a £500 yn ychwanegol i bob Cyngor Cymuned i gefnogi'r gwaith o sefydlu gwefannau Cyngor Cymuned. Rhaid gwario'r grant yn ystod 2013/14. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cyllid grant ar gael ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Trwy dderbyn y grant mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i :-

| Gweithredu | Amserlen | Tystiolaeth |
|---|---|---|
| Darlledu holl gyfarfodydd y Cyngor neu rai ohonynt | 31 Mawrth 2014 | Gweddarlledu ar wefan y Cyngor |
| Cyllid i gynghorau cymuned i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gwefannau | 31 Mawrth 2014 | Nifer y Cynghorau Cymuned sydd hefo gwefannau |
| Trefnu i aelodau etholedig fedru mynychu cyfarfodydd o bell | 31 Mawrth 2014 | Adroddiad ysgrifenedig yn nodi nifer y fath gyfarfodydd, ynghyd ag asesiad o'u llwyddiant |

**Sefyllfa gyfredol Awdurdodau Cymru**

Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn Lloegr yn gweddarlledu cyfarfodydd eu Cynghorau yn rheolaidd, ond yng Nghymru dim ond rhai awdurdodau sy'n gweddarlledu cyfarfodydd, yn cynnwys :

- Mae **Caerdydd** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (yn cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Powys** wedi defnyddio Public-i ar gyfer cyfarfodydd lle mae diddordeb cyhoeddus mawr – tua 6-8 o gyfarfodydd hyd yn hyn ac mae ffigyrau gwylio ar-lein yn codi.
- Mae **Awdurdod Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn gweddarlledu'r cyfan o'u prif gyfarfodydd gan ddefnyddio system a ddarparwyd gan Public-i, am gyfnod prawf o 18 mis, gyda chyllid gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn awr yn ystyried eu sefyllfa o ganlyniad i'r Mesur a'r cynnig o gyllid grant.

**Darlledu Cyfarfodydd**

Ar hyn o bryd, mae recordiadau sain o weithgareddau'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor ond nid yw hyn wedi ei ymestyn i bwyllgorau eraill.

O safbwynt Gweddarlledu cyfarfodydd bydd angen rhoi sylw i amrywiol faterion, technegol ac annhechnegol, er mwyn cymryd manteisio'n llawn ar weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a gofynion i'r dyfodol mewn perthynas â mynediad o bell. Mae'r agweddau hyn yn cael sylw ar hyn o bryd gan Swyddogion ac mae cynllun busnes yn cael ei baratoi.

**Gwefannau i Gynghorau Cymuned**

Ail elfen y grant yw'r dyraniad o £500 i bob Cyngor cymuned ddatblygu gwefan. Cafwyd eglurhad pellach yn gynharch y mis hwn gan Lywodraeth Cymru ar y dyraniad ar gyfer pob cyngor cymuned. Trafodir hyn ymghellach gydag Unllais Cymru.

**Argymhelliad**

Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Dros Dro a'r Penaethiaid TGCh yn cyflwyno cynigion i'r cyfarfod nesaf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Dros Dro**
**03.06.13**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD CYFARFOD: | 2 GORFFENNAF 2013 |
| TEITL: | ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU |
| AWDUR: | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – DROS DRO |

1.1 Cyflwynwyd yr adroddiad sydd yn atodiad 1 i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 4 Chwefror 2013.

Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad ac y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar ôl Etholiadau Lleol Mai 2013 yn nodi templed a phrotocol yr awgrymwyd y dylai'r Aelodau eu defnyddio i baratoi Adroddiad Blynyddol yn 2014.

1.2 Cafwyd ar ddeall gan Lywodraeth Cymru y bydd Canllawiau Statudol ar Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gyda hyn.

1.3 Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddweud wrth ei aelodau sut a pha bryd i gynhyrchu adroddiadau blynyddol.

1.4 Mater i'r awdurdod unigol yw sut y bydd yr adroddiadau yn cael eu cyhoeddi, ond bydd rhaid i'r adroddiad fod yn ddolen ar dudalennau gwe'r aelod unigol ar wefan yr awdurdod.

1.5 Dylai'r adroddiad osgoi hyrwyddo llwyddiannau gwleidyddol. Rhaid ysgrifennu'r adroddiad yn amser y gorffennol ond ni ddylent fod yn hwy na dwy ochr o bapur A4.

1.6 Ni ddylai adroddiadau ond gynnwys gwybodaeth ffeithiol am waith y cynghorydd ac ni ddylai gynnwys dim sy'n ymwneud â'u swyddogaethau yn eu pleidiau.

1.7 Mae'n debygol y bydd y canllawiau yn cynnig y dylid cynnwys eitemau safonol fel

- Rôl a Chyfrifoldebau, gan gynnwys cyfraddau mynychu
- Gweithgareddau lleol megis cymorthfeydd a gwaith achos
- Prosiectau mawr
- Dysgu a Datblygu

1.8 Paratowyd nodiadau canllaw i gynorthwyo aelodau i baratoi adroddiadau blynyddol.
(Atodiad 2)

1.9 Paratowyd templed (Atodiad 3) ar gyfer yr adroddiad blynyddol ac argymhellir y dylid ei roi i bob aelod ac y dylai'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro gynnal sesiynau briffio ar gyfer pob aelod. Cynigir yr amserlen isod:

| Tasgau | Amserlen |
|---|---|
| Canllawiau i'r holl aelodau | Gorffennaf 2013 |
| Sesiynau briffio i'r aelodau | Gorffennaf/Awst |
| Adroddiadau drafft i'w paratoi gan yr aelodau gyda mewnbwn gan y Gwasanaethau Democrataidd | Diwedd Mawrth 2014 |
| Adroddiadau yn cael eu cwblhau gan y Gwasanaethau Democrataidd gydag unrhyw newidiadau a awgrymir yn cael eu cytuno gyda'r aelodau unigol. | Mai 2014 |
| Cyhoeddi ar y wefan. | Mehefin 2014 |

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

2.1.1 Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn

2.1.2 Mabwysiadu'r templed arfaethedig a'r canllawiau cysylltiedig yn atodiad 2 ac atodiad 3 a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro i ddarparu canllawiau ar gyfer aelodau a threfnu sesiynau briffio yn unol â'r amserlen a nodir yn yr adroddiad hwn.

2.1.3 Gofyn i'r grwpiau gwleidyddol fynd ati'n egnïol i annog eu holl aelodau i gwblhau Adroddiad Blynyddol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y PWYLLGOR: | 4 CHWEFROR 2013 |
| TEITL: | ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU |
| AWDUR: | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO |

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol Cymru (2011) yn nodi:-

*"(1) Rhaid i awdurdod lleol* ***wneud trefniadau***—

*(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,*

*(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*

*(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*

*(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.*

*(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*

*(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru."*

1.2 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyheodd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu aelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau.

1.3 Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Mesur yn nodi y disgwylir i'r adroddiadau blynyddol gael eu cynhyrchu erbyn Mehefin 2013 ar weithgareddau sydd yn ymwneud a'r flwyddyn sirol flaenorol.

1.4 O gofio bod yr Etholiadau Lleol i'w cynnal yn Ynys Môn ym Mai 2013, cafwyd cadarnhad yn awr gan Lywodraeth Cymru bod angen i'r Cyngor hwn gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol erbyn Mehefin 2014.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor hwn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl etholiadau Mai 2013 yn amlinellu templed posib i'r Aelodau baratoi adroddiad blynyddol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**25/01/13**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynhgorydd
# Nodiadau Canllaw

## Cefndir

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gyfrwng ar gyfer gwella cyfathrebu rhwng Cynghorwyr a'r etholwyr lleol.

Mae Carl Sargeant – y cyn Weinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau – wedi gwneud y datganiad swyddogol isod...

'The purpose of introducing Annual Reports is to help improve local people's understanding of what their Local Councillor does, and the important role they serve. This is a process that enables a Local Authority to support Councillors and help them to inform their constituents. It will be for each Council to decide on the format for publishing its Annual Reports...'

Mae Adroddiadau Blynyddol gan Gynghorwyr wedi bod yn weithredol yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd ac mae gan bob Cyngor ei syniadau ei hun o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adroddiadau a pha mor gynhwysfawr y dylent fod. O edrych ar ddetholiad o Adroddiadau o'r fath gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr, gellir gweld bod y wybodaeth ynddynt yn amrywio'n fawr o Gyngor i Gyngor.

## Cynnwys

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar y 5 maes penodol:

- **Rôl a Chyfrifoldebau**
- **Gweithgareddau yn yr Etholaethau**
- **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**
- **Dysgu a Datblygu**
- **Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ni chaniateir i'r adroddiad fod yn hwy na 2 ochr o bapur A4. Anogir Cynghorwyr i ddarparu cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag a dymunant ym mhob rhan - heb dorri'r rheol 2 dudalen.

Bydd CYSM yn trefnu i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr trwy ddolenni o wefan CYSM ym Mehefin bob blwyddyn gyda'r adroddiadau cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar-lein ym Mehefin 2014.

## Gwybodaeth Benodol

**Rôl a Chyfrifoldebau gan gynnwys aelodaeth o gyrff allanol**

- Nod Cyngor Sir Ynys Môn fydd darparu gwybodaeth gywir am yr agweddau isod:

  Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llawn
  Presenoldeb ym mhob un o Bwyllgorau'r Cyngor

Disgwylir i Gynghorwyr Unigol ddarparu gwybodaeth am unrhyw gyrff neu bwyllgorau allanol y maent yn eu cynrychioli neu y maent yn gwasanaethu arnynt, gan gynnwys cyfraddau mynychu. Dylai Cynghorwyr sicrhau eu bod yn cadw cofnod o'r holl gyfarfodydd y maent yn eu mynychu neu sicrhau bod y pwyllgor/corff allanol yn medru darparu gwybodaeth gywir ar ddiwedd y flwyddyn.
Mae enghreifftiau o bwyllgorau/cyrff allanol yn cynnwys yr isod:

Cyrff Llywodraethu Ysgolion
Pwyllgorau Cymuned Lleol
Pwyllgorau Consortiwm Awdurdod Lleol
Pwyllgorau Coleg
Grwpiau Diddordeb Arbennig
Pwyllgorau Rheoli a Buddsoddi
*(Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol)*

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

- Dyma lle gall Cynghorwyr ddangos y gwaith y maent wedi ei wneud ar ran eu hetholwyr lleol. Gall gynnwys manylion am gymorthfeydd rheolaidd a gynhaliwyd, manylion am gyfeiriadau allweddol a wnaed i adrannau'r Cyngor, ynghyd â'r canlyniadau. Gall gynnwys y cymorth y mae Cynghorwyr wedi ei roi i drigolion lleol ar ystod o bynciau o ddiddordeb mawr.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

- Dyma lle mae Cynghorwyr yn gallu disgrifio unrhyw fentrau neu brosiectau arbennig y maent wedi bod yn gysylltiedig â hwy ar ran Cyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cael effaith uniongyrchol ar etholwyr lleol. Gallai enghreifftiau gynnwys bod yn rhan o weithgor sy'n gysylltiedig â phwnc penodol e.e. rhan o brosiect adfywio.

**Dysgu a Datblygu**

- Mae hwn yn gyfle i'r Cynghorwyr ddangos sut y maent wedi Datblygu'n Bersonol dros y 12 mis diwethaf (h.y. y modiwlau e-ddysgu a gwblhawyd). Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu cofnod ar gyfer pob Cynghorydd o'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Cyngor ac y maent wedi cymryd rhan ynddynt.

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

- Dyma gyfle i'r Cynghorwyr gynnig gwybodaeth amdanynt eu hunain a fyddai, yn eu barn hwy, o ddiddordeb i'w hetholwyr neu y dylai'r etholwyr fod yn ymwybodol ohoni, e.e. rhan y Cynghorydd mewn mentrau cymunedol. Hwn yw'r cyfle i ddangos agwedd 'bersonol' eich rôl fel Cynghorydd lleol.

Appendix 3

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd uchod ar eu gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar xxx. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** **Ward:**

**Plaid:**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Appendix 3

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Dysgu a Datblygu**

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

**Llofnod y Cynghorydd:** **Dyddiad:**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **2 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

1.0 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw adolygu a yw'r ddarpariaeth o fewn yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau democrataidd yn ddigonol.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor ar 23 Mai, 2013. Mae hyn yn sail i Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer eleni.

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y materion canlynol yn ei gyfarfod nesaf:-

- Cynllun Datblygu ac Hyfforddi Aelodau
- Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau
- Darlledu Cyfarfodydd a phresenoldeb o bell
- Moderneiddio arferion gwaith a'r defnydd o Ipad

2.0 **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi y bydd y rhaglen waith yn cael ei ddiweddaru yn y cyfarfod nesaf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**10/06/13**

This page is intentionally left blank